# Y Landlord Conwy



Hydref 2019



**Ardroddiad Forum Mis Medi**

**Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016**

**Holiadur Landlord**

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i helpu pobl i helpu eu hunain**

**Conwy County, the right environment to help people help themselves**

## Annwyl Landlord Conwy

Croeso i rifyn cyntaf Newyddlen i Landlordiaid Conwy. Bydd y Newyddlen yn cael ei llunio gan y tîm Strategaeth Tai ar ran pob rhan o'r Cygor sy'n ymwneud â busnes y Landlord.

Mae landlordiaid wedi wynebu llawer o newidiadau rheoleiddiol yn ddiweddar. Weithiau mae'n anodd dal i fyny â phopeth. Nod y newyddlen hon yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynghyd ag eitemau o ddiddordeb. Rydym i gyd eisiau gweld tenantiaethau llwyddiannus. Rydym eisiau dweud wrthych am sut gallwn helpu'ch busnes a pha wasanaethau sydd ar gael i'ch cefnogi fel landlord.

Mae hwn yn rhifyn dwbl gan ein bod wedi cynnwys adroddiadau o'r ddau Fforwm Landlordiaid diwethaf.

Tanysgrifiwch i'n Newyddlen yma

Os hoffech dderbyn y newyddlen hon mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni.
Ffôn: 01492 576274; e-bost Housingstrategy@conwy.gov.uk
**Cyfeiriad Post newydd:** Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN

## Rydym eisiau gwybod mwy



I'n helpu i wella'n gwasanaethau, hoffem wybod mwy am landlordiaid yng Nghonwy. Rydym eisiau gwybod sut gallwn eich helpu chi i ddweud 'ie' wrth denantiaid bregus neu aelwydydd ar incwm isel. Rydym am awgrymu ffyrdd y gallwn weithio gyda'n gilydd er budd pawb. Bydd yr ymatebion yn ddienw, ond gallwch optio i mewn i gael newyddlenni a gwahoddiadau i' r fforwm.

Cliciwch yma i lenwi'r Holiadur. Diolch am eich amser.

Neu cysylltwch â ni i gael fersiwn bapur neu i ofyn cwestiynau.

Anfonwch eich ymateb erbyn **Dydd Llun 18 Tachwedd**

## Fforwm drafod

3 gwaith y flwyddyn mae Conwy'n cynnal fforwm i landlordiaid.

Gallwch ddisgwyl sgyrsiau byr ar bynciau amrywiol; busnesau lleol sy'n cynnig cynnyrch a gwasanaethau i landlordiaid; a chynrychiolwyr o'r Cyngor i roi gwybodaeth ac ateb cwestiynau.

## Y fforwm Landlordiaid nesaf

**Pryd:** Dydd Iau 23 Ionawr, 5.30 pm (paned o 5.00pm)

**Ble:** yn Swyddfeydd y Cyngor, Bodlondeb, Conwy. LL32 9DU

**Cysylltwch â ni** i archebu lle. Ffôn: 01492 576274 neu e-bost Housingstrategy@conwy.gov.uk

## Adroddiad Fforwm Mis Medi

Cynhaliwyd y fforwm yn Swyddfeydd newydd y Cyngor ym Mae Colwyn.

Y tro hwn ehangwyd y cyfarfod arferol yn Brynhawn Sioe Deithiol. Cawsom fwy o fusnesau a gwasanaethau nag arfer a chynhaliwyd seminarau ar 'Gwneud Cais am Drefniadau Talu Amgen' gan y DWP; Yr Allwedd i fuddsoddi eiddo i landlordiaid, Henry Davies, hyfforddwr RLA; Effeithlonrwydd Ynni i Landlordiaid gan Steve Woosey, Canolfan Cyngor Ynni Gogledd Cymru ac am y cynllun hyfforddi i denantiaid ifanc Conwy, 'Renting Ready' gan Faye Willet, Datrysiadau Tai Conwy.

Cafwyd sylwadau cadarnhaol iawn gan y rhai oedd yno. Dywedodd yr ymatebwyr i'r holiadur y byddent yn argymell y fforwm i landlordiaid eraill.

**'Hoffwn ddiolch i chi am drefniadau'r fforwm Landlordiaid. Roedd yn noson ardderchog ac fe ddysgais i lawer. Roedd hyn yn werthfawr iawn i mi fel landlord a dwi'n gobeithio dod i fwy o'r rhain yn y dyfodol.**
GP landlord.

## Diweddariad ar y Gyfraith

Rhoddodd Douglas Haig, Cyfarwyddwr y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl (RLA) ddiweddariad ar y newidiadau a'r newidiadau a gynigir, yn y gyfraith.

## Diwygio rheolau adfeddiannu

Mae Llywodraeth Cymru newydd ymgynghori ar gynlluniau i newid y drefn adfeddiannu lle nad yw'r tenant wedi torri telerau'r cytundeb tenantiaeth. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig cynyddu'r cyfnod rhybudd i 6 mis, ac na ellir rhoi rhybudd yn 6 mis cyntaf tenantiaeth. Byddai hyn yn golygu na allai landlordiaid roi 2 fis o rybudd adran 21 fel sy'n gyffredin ar hyn o bryd. Byddai'r newidiadau'n cael eu hysgrifennu i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Rhoddwn ddiweddariad yn Fforwm Landlordiaid mis Ionawr.

## Ffioedd a ganiateir.

Ar 1 Medi 2019, daeth Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd) (Cymru) 2019 i rym. Dim ond y ffioedd a ganiateir y gall Landlordiaid ac Asiantau eu codi.

## Beth allwch chi godi?

Ni ellir codi ffioedd ar denantiaid yn y PRS, ar wahân i 'Daliadau a Ganiateir', sef:

- Rhent
- Bond Sicrhad
- Diffygdaliadau
- Blaendal Cadw
- Y Dreth Gyngor
- Cyfleustodau
- Gwasanaethau band eang
- Taliadau'r fargen werdd

## Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru( 2016)

Alex Weaver, Rheolwr, HAWS

Pasiwyd y Ddeddf yn 2016, ond nid yw wedi dod i rym eto. Fodd bynnag, gall Gweinidogion wneud rheoliadau o dan y ddeddf sy'n arwain at ddarparu Ffioedd (gweler uchod). Mae'r ddeddf yn golygu newid radical o'r ddeddf dai bresennol a dim ond yng Nghymru y mae'n weithredol.

Bydd y ddeddf newydd yn effeithio ar bob tenantiaeth. Os nad ydych yn siŵr amdani, darllenwch ymlaen.

Bydd y Ddeddf yn cyflwyno'r angen i bob tenantiaeth gael cytundeb tenantiaeth ysgrifenedig. Bydd hyn yn wir am denantiaeth sydd wedi bod yn eu lle ers blynyddoedd lawer. Gelwir y cytundebau tenantiaeth newydd yn gontractau, a bydd y tenantiaid yn 'ddeiliaid contract'. Bydd lleihad yn y mathau o denantiaeth y gellir eu creu. Tenantiaethau 'safonol' fydd y rheinyn y sector preifat. Er y bydd Llywodraeth Cymru (LlC) yn drafftio contract

enghreifftiol, gall landlordiaid ddefnyddio'u contract eu hunain os ydynt yn cynnwys yr holl elfennau sy'n ofynnol gan LlC. Rhaid i'r contract gynnwys telerau 'sylfaenol' a gall gynnwys telerau 'ategol'. Gall y partïon gytuno ar delerau ychwanegol hefyd.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno safonau newydd 'Annedd yn Ffit i Bobl Fyw Ynddo'. Rhaid i bob eiddo fodloni'r safon cyn i denantiaeth ddechrau.

Ni fydd landlordiaid yn gallu troi deiliad contract allan os mai'r unig reswm dros wneud hynny yw bod y deiliad contract wedi gwneud cwyn gyfiawn am yr eiddo.

Mae'r Ddeddf yn newid y rheolau i gyd-dentantiaid mewn dwy ffordd bwysig. Mae'n caniatáu i gyd-denant gael ei ychwanegu neu ei dynnu o gontract yn unigol. Felly gellir gofyn i'r rhai sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig, e.e. adael, yn hytrach nag fel sy'n digwydd rŵan, fod yn rhaid i'r dioddefwr adael, yn aml gyda phlant. Bydd hyn yn lleihau nifer yr aelwydydd digartref oherwydd cam-drin domestig.

Nodyn byr yw hwn ar y prif newidiadau, ond mae'r Ddeddf newydd yn ddarn manwl o ddeddfwriaeth. Os hoffech wybod mwy am sut y gallai'r Ddeddf newydd effeithio arnoch chi, ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru, neu wefannau'r RLA.

## RLA yn Uno â'r NLA

Cyhoeddodd Douglas Haig y bydd y Gymdeithas Landlordiaid Cofrestredig (RLA) yn uno a'r Gymdeithas Landlordiaid Genedlaethol (NLA) i greu'r NRLA.

Mae Cyngor Conwy wedi gweithio'n dda gyda'r ddwy gymdeithas a'i nod yw cynnwys llais y landlord mewn fforymau.
Rydym yn argymell fod landlordiaid yn ystyried ymaelodi gan y gall yr wybodaeth a'r gefnogaeth arbed arian ac amser iddyn nhw.

## Adroddiad Fforwm Landlordiaid mis Mai

## Credyd Cynhwysol: Newyddion i Landlordiaid.

Soniodd Susan Roberts o'r Adran Waith a Phensiynau wrthym am eu newyddlen ar-lein i landlordiaid.

Gall landlordiaid sy'n pryderu am rent heb ei dalu wneud cais am Drefniadau Talu Amgen (APA) drwy lenwi ffurflen UC47. Os cytunir, gellir talu'r landlord yn uniongyrchol, neu gall budd-daliadau gael eu talu i denantiaid yn amlach. Mae'r tabl isod yn dangos y rhesymau dros gytuno i'r Taliadau Amgen. Gellir gwneud cais o ddiwrnod cyntaf y denantiaeth.

**Haen 1 – Angen tebygol iawn / tebygol am Drefniadau Talu Amgen**

- Cyffuriau / alcohol a / neu broblemau dibyniaeth eraill e.e. gamblo
- Anawsterau dysgu yn cynnwys problemau gyda llythrennedd a / neu rifedd
- Problemau dyled difrifol / lluosog
- Digartref
- Trais /camdriniaeth yn y cartref
- Cyflwr Iechyd Meddwl
- Mewn ôl-ddyledion rhent / bygythiad troi allan / adfeddiannu
- Hawlydd yn ifanc: naill ai 16/17 oed a / neu yn gadael Gofal
- Teuluoedd ag anghenion lluosog a chymhleth

**Haen 2 – Angen llai tebygol / posibl am Drefniadau Talu Amgen**

- Didyniadau trydydd parti yn eu lle (e.e. dirwyon, ôl-daliadau cyfleustodau ayb.)
- Mae'r hawlydd yn ffoadur / ceisiwr lloches
- Hanes o ôl-ddyledion rhent
- Yn ddigartref o'r blaen a / neu mewn llety dros dro neu â chymorth
- Anabledd arall (e.e. anabledd corfforol, nam synhwyrau ayb.)
- Hawlydd newydd adael y carchar
- Hawlydd newydd adael yr ysbyty
- Newydd gael profedigaeth
- Sgiliau iaith (e.e. ddim yn siarad Cymraeg/Saesneg fel mamiaith)
- Cyn staff y Lluoedd Arfog
- NEET – ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

Eglurodd Susan fod yn rhaid cael caniatâd penodol gan denantiaid cyn gall y DWP siarad â landlordiaid.
Mae'r DWP yn disgwyl i bob tenant fod ar Gredyd Cynhwysol erbyn 2023. Bellach mae gan Cyngor ar Bopeth gontract i roi cymorth i ymgeiswyr Credyd Cynhwysol. Er ei bod yn deg dweud fod landlordiaid yn dal yn ochelgar am osod i hawlwyr CC, ar ôl y cyflwyniad, dywedodd nifer o Landlordiaid Conwy y byddent yn fwy hyderus i osod i hawlwyr CC erbyn hyn.

## Prynwch gyda Hyder

Cawsom gyflwyniad gan Tobi Smith o dîm Safonau Masnach Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i 'Prynwch gyda Hyder. Os ydych yn chwilio am fasnachwr dibynadwy, dewch yma gyntaf. Dyma'r unig gynllun a argymhellir sy'n cael cefnogaeth Safonau Masnach. Dim ond masnachwyr sy'n bodloni safonau llym sy'n cael mynd ar y rhestr. Caiff y cynllun ei weinyddu gan Gyngor Sir Ynys Môn yng Ngogledd Cymru, ac mae busnesau newydd ar fin cael eu hychwanegu yng Nghonwy cyn bo hir.

https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Trading-Standards.aspx


## Dod o hyd i gartrefi i deuluoedd.

Mae mwy o deuluoedd â phlant yn chwilio am osodiadau preifat, ond gall rhieni ei chael yn anodd dod o hyd i gartrefi. Mae gennym nifer o deuluoedd sydd angen cartref ar frys rŵan. Os oes gennych eiddo a fyddai'n addas i deuluoedd â phlant, cysylltwch â'n tîm mynediad i eiddo a fydd yn hapus i'ch rhoi chi mewn cysylltiad â nhw. Mewn rhai amgylchiadau gallwn helpu gyda ffioedd tenantiaeth a geirda.

Ffoniwch Lynsey neu Anna ar 01492 576264

## Diogelwch Tân

Cyfeiriodd cynghorydd addysg busnes y gwasanaeth tân, Alastair Horton, y Landlordiaid i gyd at Ganllawiau'r Llywodraeth i landlordiaid preifat.




Mewn sgwrs boblogaidd, pwysleisiodd Alastair yr angen i wirio drysau tân.




Drws tân llwyddiannus

Dros y blynyddoedd, mae ef wedi gweld sawl un nad yw’n ateb y gofyn mwch, neu ddim yn cwrdd â’r safon nod barcut. Dyma un o luniau Alastair, ac mae’n dangos dwy ochr drws tân, sy’n bodloni’r safon, yn dilyn tân.

Ar nodyn mwy difrifol, dywedodd Alastair wrth y fforwm am dân mewn eiddo yng Nghonwy. Pe bai’r tenantiaid wedi bod adref, mae’n debygol iawn y byddent wedi marw. Byddai’r landlord wedi bod yn atebol. Roedd eu hystafell wely yn ‘ystafell fewnol’ heb ffordd o ddianc. Mae canllawiau LACORS yn rhoi manylion am sut i osgoi hyn.

Mae’r gwasanaeth tân ac achub yn fodlon iawn i gynghori landlordiaid am sut i wneud eu heiddo yn ddiogel.

Cysylltwch ag Alastair a’r tîm diogelwch
Ffôn 01745 352772
Symudol: 07787 578 541

Swyddfa Ddiogelwch Sir Ddinbych
Ffordd Arfordir y Rhyl, Y Rhyl LL18 3PL
E-bost: Alastair.Horton@nwales-fireservice.org.uk

GOV.UK

Yn sgil ymholiad o Gonwy, cywirwyd gwefan GOV.UK

Cawsom alwad ffôn gan landlordes brofiadol i holi am roi rhybudd a21 i denantiaid os oedd y Cyngor wedi cyflwyno hysbysiad gwella neu hysbysiad camau adfer brys yn y 6 mis diwethaf. Roedd hi’n ffyddiog fod y gyfraith yng Nghymru yn wahanol i Loegr, a bod hawl ganddi i wneud hynny. Fodd bynnag, roedd y dudalen ar wefan GOV.UK ar Droi Tenantiaid Allan yn rhoi’r un canllawiau i Gymru a Lloegr. Wedi i Ddeddf Rhentu Cymru 2016 ddod i rym, bydd cyfyngiadau ar landlordiaid Cymru, ond ddim eto.

Yn fuan ar ôl tynnu sylw at y gwall hwn, cywirwyd y Wefan. Mae’n werth gwirio’n ofalus y gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr, a holi os nad ydych yn siŵr.

## Operation Bravo

Mae swyddogion safonau masnach yn ymweld â phob Asiant Eiddo yng Nghonwy i wirio eu bod wedi cofrestru â Chynllun Gwneud Iawn. Gyda'r ymarfer yn tynnu at ei derfyn, gallwn ddweud fod pob asiant hyd yma yn bodloni'r gofyniad i fod yn aelodau o gynllun gwneud iawn. Gall landlordiaid fod yn hyderus fod asiantwyr yn cydymffurfio.
Mae 2 gynllun wedi'u cymeradwyo,
Yr Ombwdsmon Eiddo a'r Cynllun Gwneud Iawn. Os na allwch ddatrys cwyn gyda'ch asiant, gallan nhw helpu.

## Rhentu Doeth Cymru

Mae dros 4500 o landlordiaid Conwy sy'n gosod 9300 o eiddo wedi cofrestru erbyn hyn gyda Rhentu Doeth Cymru.
Bydd gwefan Rhentu Doeth Cymru yn cynnig mwy o wybodaeth i landlordiaid gydag amser. Os nad ydych wedi edrych ar y safle'n ddiweddar, edrychwch ar y tudalennau gwybodaeth.
Eleni cafodd 7 o landlordiaid Conwy eu dirwyo am beidio â bod wedi eu cofrestru neu eu trwyddedu.

## HAWS

Asiantaeth gosod eiddo yw HAWS, mae'r gair yn golygu 'yn fwy hawdd', ac mae tîm HAWS eisiau gwneud y busnes gosod cyn hawsed â phosibl i'w landlordiaid cleient.
Mae HAWS yn darparu ystod lawn o wasanaethau gosod, ac mae eu ffioedd yn hollgynhwysol, felly ni fydd costau ychwanegol annisgwyl.
Mae gan HAWS dîm o 30 o bobl cynnal a chadw, wedi'u hyfforddi a'u hyswirio'n llawn y gallant alw arnyn nhw 24 awr y dydd. Yn ogystal â chynnig gwaith trwsio fel rhan o becyn rheoli, gall y tîm gynnig dyfynbrisiau am ddim ar gyfer gwella eiddo. Maent yn cynnig pob math o grefftau cynnal a chadw cartref.

Mynnwch olwg ar eu gwasanaethau ar eu gwefan, ac os na allwch ddod o hyd i wasanaeth sy'n bodloni'ch anghenion, byddant yn gallu teilwra gwasanaeth arbennig i chi.



# Tudalen y Tenant

Mae'r rhan fwyaf o landlordiaid yn sylweddoli y gall eu tenantiaid fod angen gwybodaeth, cymorth neu rannu barn o bryd i'w gilydd.

Dyma rai syniadau y gallwch eu rhannu â'ch tenantiaid.

## Tenant Pulse

Bwriad Tenant Pulse yw bod yn llais tenantiaid yng Nghymru. Fe'i crëwyd gan TPAS Cymru, ac mae'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Ei nod yw darganfod beth sydd fwyaf pwysig i denantiaid drwy arolygon rheolaidd gyda gwobrau raffl i wobrwyo cyfranogwyr.
Cliciwch **yma** i weld fideo amTenant Pulse.

## Help i Denantiaid Conwy

Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn cynnig cyngor a chymorth i bobl y mae eu tenantiaeth mewn perygl. Mae'r cymorth yn hyblyg iawn ac wedi'i lunio i ddiwallu angen y tenant. Gallai fod yn help gyda hawlio budd-daliadau, cyllidebu, rheoli dyledion, canfod cymorth am bob math o faterion o brofedigaeth i broblemau iechyd; addasiadau cartref i gyngor effeithlonrwydd ynni neu osodiadau. Os yw'r denantiaeth mewn perygl o gael ei cholli, dylai'r tenantiaid gysylltu â
Datrysiadau Tai Conwy ar 0300 124 0050
Rydym yn atal digartrefedd mewn tua dwy ran o dair o'r achosion sydd o dan fygythiad digartrefedd.

## A wyddech chi?

Gall rhai pobl fel Gofalwyr a phobl sy'n byw â namau meddyliol difrifol, a allai gynnwys Dementia, strôc, ac anableddau dysgu dwys, fod â hawl i ostyngiadau yn y Dreth Gyngor. Gall yr arian a arbedir helpu gyda chostau dydd i ddydd a rhent.
Am ragor o wybodaeth ffoniwch 01492 576607
Gall gwasanaeth cynnal gofalwyr eich rhoi ar ben y ffordd. Mae'r gwasanaeth yn gwybod sut mae gofalu yn effeithio ar eich bywyd, ac maen nhw yno i'ch helpu.
Gall gofalwr fod yn unrhyw un sy'n helpu perthynas neu gymydog sy'n ddibynnol arnynt. Nid yw llawer o bobl yn sylweddoli eu bod yn ofalwyr ac maent yn colli cael budd-daliadau a chefnogaeth.

## Teimlo'r Oerfel?


Gall tenantiaid bregus wneud cais am gymorth drwy wefan y Nyth i wella effeithlonrwydd ynni eu cartref. Estynnwyd y rhai sy'n gymwys yn ddiweddar gan gyllid ECOflex i gynnwys aelwydydd â chyflyrau meddygol sy'n gwaethygu yn yr oerfel. Mae tenantiaid hŷn a'r rheiny ar incwm isel yn gymwys. Gall tenantiaid gysylltu â'r Cyngor i holi a ydynt yn gymwys drwy e-bostio neu drwy wirio'r meini prawf a gyhoeddwyd ar wefan gwelliannau cartref y Cyngor. Yr enw am hyn yw datganiad o fwriad ECO.
Gall Nyth dalu am inswleiddio, boeleri newydd a gwaith arall i arbed ynni. Ffôn: 0808 808 2244

# Effeithlonrwydd Ynni

## Rheoliadau Isafswm Effeithlonrwydd Ynni

A wyddech chi ei bod hi'n anghyfreithlon ers mis Ebrill i osod eiddo gyda Thystysgrifau Perfformiad Ynni F neu G? O Ebrill 2020 bydd hi hefyd yn anghyfreithlon parhau tenantiaethau mewn eiddo F a G. Bydd angen i bob eiddo a osodir gael tystysgrif EPC. Gellir eithrio rhai eiddo am amryw o resymau. Anogir landlordiaid i sicrhau fod EPC gan eu heiddo ac i wirio'r rheolau.

Eiddo â sgôr F neu G yng Nghonwy 2019




Yng Nghonwy rydym yn amcangyfrif fod gan tua 1600 i eiddo rhent dystysgrif EPC F neu G. Mae amser yn fyr i ddod â'r eiddo i fyny i'r safon. Mae gwella effeithlonrwydd ynni eiddo yn gwneud ei wresogi yn llawer rhatach, felly mae gwres yn fwy fforddiadwy. Gall gwres mwy fforddiadwy helpu aelwydydd incwm isel i fforddio'u rhent ac aros yn fwy iach. Mae'n gwneud synnwyr o safbwynt cynnal a chadw hefyd gan fod cartref cynnes yn lleihau'r problemau sy'n gysylltiedig ag anwedd.

## Cyngor Diduedd am Ddim

Yn Fforwm mis Medi, daeth Steve Woosey o Ganolfan Cynghori Ynni Gogledd Cymru (NWEAC) i roi cyngor i landlordiaid
Menter gymdeithasol yw NWEAC sy'n gweithio gydag awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru i roi cyngor am unrhyw agwedd o ddefnydd ynni yn y cartref. Gwneir gwaith hefyd gyda mudiadau cymunedol a busnesau bach.

Mae'r cyngor yn cynnwys lleihau defnydd ynni drwy welliannau i'r eiddo a newid ymddygiad, dewis gwres ac opsiynau ynni adnewyddadwy a newid cyflenwyr ynni. Maen nhw'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y grantiau sydd ar gael ac yn cyfeirio'n uniongyrchol at osodwyr lleol. http://www.nweeac.org.uk/
Ffôn: 0800 9549658

Gall Nyth gynghori landlordiaid hefyd. Ymddeolodd eu cynrychiolydd yma yn ddiweddar a disgwyliwn glywed am ei olynydd
https://nest.gov.wales/en/
Ffôn: 0808 808 2244
Mae cyllid ECOFlex i leihau tlodi tanwydd wedi'i ymestyn bellach i fwy o grwpiau. Fel landlord byddai angen i chi gymeradwyo unrhyw waith effeithlonrwydd ynni.

## Benthyciadau i Wella'r Cartref

Gall y Cyngor helpu landlordiaid sydd angen gwneud gwaith effeithlonrwydd ynni hanfodol drwy'r cynllun Benthyciad Gwella'r Cartref.

Gellir benthyca hyd at £25 000 i wneud cartrefi'n gynnes, yn ddiogel a sicr (yn amodol ar delerau)
housingstrategy@conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL